Traddodiad Barddol – CA5

Tasg 1: Ystyr traddodiad

Mae Gwyn Thomas yn gofyn ar ddechrau ei ragymadrodd, “Beth ydych chi’n ystyried sy’n creu ‘traddodiad’?”

1.

- Darllenwch y bennod gyntaf o dudalen 9 hyd at ddiwedd ail baragraff tudalen 10.
- Edrychwch hefyd ar: https://www.youtube.com/watch?v=azDoFtztlhs), nodwch fod Gwyn Thomas, wrth sôn am hen englynion y Cymry, yn dweud ar ddechrau’r clip: ‘nid dechrau ond parhad’.

2. “Beth ydych chi’n ystyried sy’n creu ‘traddodiad’?”

   Trafodwch y cwestiwn hwn â’ch partner, yna lluniwch ateb cryno ar y cyd o ddim mwy na 50 o eiriau.

   Efallai hefyd y bydd hi’n fuddiol i chi ystyried yr arysgrif y mae Gwyn Thomas wedi ei ddewis ar gyfer ei gyfrol *Y Traddodiad Barddol*, sef llinell o waith y bardd Tudur Aled. (Roedd Tudur Aled yn byw tua (1465-1525):
   ‘Gair wedi’r êl gŵr, a drig.’